OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 961 (Cy.85)

# Y GWASANAETH IECHYD, CYMRU

## Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *20 Mawrth 2007* |
| *Yn dod I rym* | - - | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 75 o Ddeddf Iechyd 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, Cychwyn a Dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007 a daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae i'r term "is-deddfwriaeth" yr un ystyr a roddir i'r term "subordinate legislation" yn Neddf Dehongli 1978(**2**).

**Rhychwant**

**2.** Mae gan addasiad o ddeddfiad gan y Gorchymyn hwn yr un rhychwant â'r deddfiad a addaswyd.

**Addasiadau o Ddeddfau Seneddol**

**3.** Mae'r deddfiadau a nodwyd yn yr Atodlen yn cael eu diwygio fel y nodir yno.

**Addasiadau o gyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd mewn is-ddeddfwriaeth**

**4.** Bydd pob cyfeiriad mewn is-ddeddfwriaeth at Awdurdod Iechyd neu Awdurdodau Iechyd yn cael eu trin fel cyfeiriadau at Fwrdd Iechyd Lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol fel y bo'n briodol, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

(**1**) 2006 p.28.
(**2**) 1978 (p.30).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

20 Mawrth 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 c. 38.

## YR ATODLEN

**Erthygl 3**

**Addasiadau i Ddeddfau Seneddol sy'n gysylltiedig â diddymu Awdurdodau Iechyd Cymru a chreu Byrddau Iechyd Lleol**

## Deddfau Seneddol

### Deddf Cymorth Gwladol 1948 (p.24)

**1.** Yn adran 26 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (darparu llety mewn eiddo a gynhelir gan sefydliadau gwirfoddol), yn is-adran (1C) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Lluoedd Arfog wrth Gefn ac Atodol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951 (p.65)

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951 (galluoedd mewn perthynas â pha daliadau y gellir eu gwneud o dan Ran 5 ac awdurdodau sy'n talu), ym mharagraff 15 yn lle "Health Authority ", ym mhob man y digwydd, rhodder "Local Health Board".

### Deddf Landlord a Thenant 1954 (p.56)

**3.** Yn adran 57 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 (addasiad ar sail hawliau budd cyhoeddus o dan Ran 2), yn is-adran (6) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 (p.67)

**4.** Yn yr Atodlen i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 (cyrff y mae'r ddeddf hon yn gymwys iddynt), hepgorer paragraff (1)(f).

### Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 (p.88)

**5.** Yn adran 28 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 (cadw neu ailddechrau defnyddio tir sydd ei angen at ddibenion cyhoeddus), yn is-adrannau (5)(d) a (6)(c) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 (p.46)

**6.**—(1) Diwygir Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 63 (darparu cyfarwyddyd i swyddogion awdurdodau ysbytai a phersonau eraill a gyflogir, neu sy'n ystyried cyflogaeth, mewn rhai gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu lles) —

(a) yn isadran (1)(a) hepgorer y geiriau "Health Authority";

(b) yn is-adran (2)(b) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board";

(c) yn is-adran (5A) hepgorer y geiriau "Health Authority" yn y ddau fan lle y digwydd; ac

(ch) yn is-adran (5B) hepgorer paragraff (a).

(3) Yn adran 64 (cymorth ariannol gan y Gweinidog Iechyd a'r Ysgrifennydd Gwladol i rai sefydliadau gwirfoddol), yn is-adran (3)(b) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (p.42)

**7.** Yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol), yn y cofnod ar gyfer Deddf Plant 1989 yn lle "health authorities" rhodder "Local Health Boards".

### Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)

**8.**—(1) Diwygir Deddf Llywodreath Leol 1972 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 113 (rhoi staff awdurdodau lleol at wasanaeth awdurdodau lleol eraill)—

(a) yn is-adrannau (1A), (1A)(a) a (1A)(b) yn lle "Health Authority" ym mob man y digwydd, rhodder "Local Health Board"; a

(b) yn is-adran (4) ar ôl y geiriau "In subsection (1A) above" mewnosoder ""Local Health Board" means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006".

### Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc1974 (p.37)

**9.** Yn adran 60 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (atodol), yn is-adran 1 yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Datgymhwysiad Ty'r Cyffredin 1975 (p.24)

**10.**—(1) Diwygir Deddf Datgymhwysiad Ty'r Cyffredin 1975 fel a ganlyn.

(2) Yn atodlen 1 (swyddi sy'n anghymwyso ar gyfer aelodaeth), yn Rhan 3 (swyddi eraill sy'n anghymwyso) —

(a) yn y cofnod sy'n dechrau "Chairman or any member, not being also an employee of any Strategic Health Authority, Health Authority or Special Health Authority" hepgorer y geiriau "Health Authority"; a

(b) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder —

> "Chairman or any member, not being also an employee, of a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006.".

### Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (p.70)

**11.** Yn adran 21C o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (pwerau i gynghori ynglyn â materion tir), yn is-adran (2)(f) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

### Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (p.74)

**12.**—(1) Diwygir Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1A (cyrff a phersonau eraill sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd statudol gyffredinol), yn Rhan 1 (categorïau gwreiddiol cyrff a phersonau eraill) —

(a) ym mharagraff 5 hepgorer y geiriau "or a Health Authority"; a

(b) ar ôl paragraff 5 mewnosoder —

> "**5A.** A Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006.".

**Deddf Iechyd Meddwl 1983 (p.20)**

**13.**—(1) Diwygir Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 23 (rhyddhau cleifion) —

(a) yn is-adran (3) yn lle "Health Authority", yn y ddau fan lle y digwydd, rhodder "Local Health Board";

(b) yn is-adran (4) ar ôl "trust", ym mhob man y digwydd, rhodder ", board";

(c) yn adran (5) yn y geiriau cyn paragraff (a) ar ol "trust", yn y ddau fan lle y digwydd, mewnosoder ", board"; a

(ch) yn is-adran (5)(a) —

(i) yn lle "Health Authority", yn y ddau fan lle y digwydd, rhodder "Local Health Board";

(ii) yn lle "or trust" yn y ddau fan lle y digwydd, rhodder, ", trust or board"; a

(iii) yn lle "such members (of the authority, trust, committee or sub-committee" rhodder "such members (of the authority, trust, board, committee or sub-committee".

(3) Yn adran 24 (ymweld ac archwilio cleifion), yn is-adran (3) yn lle "Health Authority", yn y ddau fan lle y digwydd, rhodder "Local Health Board".

(4) Yn adran 25A (cais am oruchwyliaeth), yn is-adrannau (6), (7) a (8) yn lle "Health Authority", ym mhob man y digwydd, rhodder "Local Health Board".

(5) Yn adran 25C (ceisiadau am oruchwyliaeth: atodol), yn is-adran (6) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(6) Yn adran 25F (ailddosbarthu claf yn ddarostyngedig i ôl-ofal o dan oruchwyliaeth), yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(7) Yn adran 32 (rheoliadau at ddibenion Rhan 2), yn is-adran (3) —

(a) yn lle "Health Authorities" rhodder "Local Health Boards"; a

(b) ar ôl "managers" mewnosoder ", boards,".

(8) Yn adran 39 (gwybodaeth am ysbytai) —

(a) yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" ym mhob man y digwydd, rhodder "Local Health Board";

(b) yn is-adran 1(b) yn lle "any other" rhodder "the National Assembly for Wales or any other";

(c) yn is-adran (1) cyn y geiriau "have or can reasonably" mewnosoder "or National Assembly for Wales"; a

(ch) yn is-adran (1) cyn y geiriau "shall comply with any such request" mewnosoder "or National Assembly for Wales".

(9) Yn adran 117 (ôl-ofal) yn is-adrannau (2), (2A) a (3) yn lle "Health Authority", ym mhob man y digwydd, rhodder "Local Health Board".

(10) Yn adran 134 (gohebiaeth cleifion), yn is-adran 3(e) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(11) Yn adran 139 (diogelu camau gweithredu a wneir yn unol â'r ddeddf hon), yn is-adran (4) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(12) Yn adran 140 (hysbysu ysbytai sydd â threfniadau ar gyfer derbyn achosion brys), yn lle "Health Authority", ym mhob man y digwydd, rhodder, "Local Health Board".

(13) Yn adran 145 (dehongli), yn is-adran (1) —

(i) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder —

"“Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Services (Wales) Act 2006;”; a

(ii) yn y diffiniad o “the managers” yn lle “Health Authority” rhodder “Local Health Board”.

**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22)**

**14.**—(1) Diwygir Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1 (awdurdodau sy'n gweinyddu'r ddeddf), yn is-adran (4)(b) yn lle “Health Authorities” rhodder “Local Health Boards”.

(3) Yn adran 11 (achosion o glefydau hysbysadwy a gwenwyn bwyd i gael eu cofnodi), yn is-adrannau (3)(a) a (3)(b)(ii) yn lle “Health Authority”, ym mhob man y digwydd, rhodder “Local Health Board”.

(4) Yn adran 12 (ffioedd ar gyfer tystysgrifau o dan s11), yn is-adran (1) yn lle “Health Authority” rhodder “Local Health Board”.

(5) Yn adran 13 (rheoliadau ar gyfer rheoli clefydau arbennig), yn is-adran (4)(a) yn lle “Health Authorities” rhodder “Local Health Boards”.

(6) Yn adran 37 (symud person sydd â chlefyd hysbysadwy i'r ysbyty) —

(a) yn is-adrannau (1)(c) a (1A) yn lle “Health Authority”, ym mhob man y digwydd, rhodder “Local Health Board”; a

(b) yn is-adran (1)(c) cyn y geiriau “or other person” mewnosoder “, Local Health Board”.

(7) Yn adran 39 (ceidwad llety cyffredin i hysbysu achos o glefyd heintus), yn is-adran (3) yn lle “Health Authority” rhodder “Local Health Board”.

(8) Yn adran 41 (symud trigiannydd llety cyffredin gyda chlefyd hysbysadwy i'r ysbyty) —

(a) yn is-adran (1) yn lle “Health Authority”, yn y ddau fan lle y digwydd, rhodder “Local Health Board”; a

(b) yn is-adran 1(c) cyn y geiriau “or any other person” mewnosoder “, Local Health Board”.

**Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) Act 1986 (p.33)**

**15.**—(1) Diwygir Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 fel a ganlyn.

(2) Yn lle “Health Authority” rhodder “Local Health Board” yn yr adrannau canlynol —

(a) adran 2 (hawliau cynrychiolydd awdurdodedig personau anabl), yn is-adran (9) yn is-baragraff (aa); a

(b) adran 7 (personau sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty), yn is-adran (9) yn is – baragraff (aa) yn y diffiniad o “health authority”.

(3) Yn adran 16 (dehongli), mewnosoder yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor "“Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Services (Wales) Act 2006;”.

**Deddf Aids (Rheoli) 1987 (p.33)**

**16.**—(1) Diwygir Deddf Aids (Rheoli) 1987 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1 (adroddiadau cyfnodol ar faterion sy'n ymwneud ag AIDS a HIV) —

(a) yn is-adrannau (1)(b)(i) a (2)(b) yn lle “Health Authority” rhodder “Local Health Board”; a

(b) yn is-adran (9) yn lle "“Health Authority” means a Health Authority established under section 8 of that Act" rhodder "“Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006".

**Deddf Cynghorau Iechyd Cymuned (Mynediad at Wybodaeth) 1988 (p.24)**

**17.** Yn adran 1 o Ddeddf Cynghorau Iechyd Cymuned (Mynediad at Wybodaeth) 1988 (mynediad i gyfarfodydd ac at ddogfennau cynghorau iechyd cymuned), yn is-adran (6)(a) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

**Deddf Croesfan Dartford-Thurrock 1988 (p.20)**

**18.** Yn adran 19 o Ddeddf Croesfan Dartford-Thurrock 1988 (esemptiad o dollau), yn is-adran (b) ar ôl y geiriau "under section 18 of the National Health Service Act 2006," mewnosoder "a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006".

**Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 (p.1)**

**19.** Yn adran 519A o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 (cyrff gwasanaeth iechyd) yn is-adran (2)(a) hepgorer y geiriau "or a Health Authority".

**Deddf Plant 1989 (p.44)**

**20.**—(1) Diwygir Deddf Plant 1989 fel a ganlyn.

(2) Yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board" yn yr adrannau canlynol —

(a) adran 21 (darparu llety ar gyfer plant dan ofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw neu ar remand, etc), yn is-adran (3);

(b) adran 24 (personau sy'n gymwys i gael cyngor neu gymorth) yn is-adran (2)(d)(i);

(c) adran 24C (gwybodaeth) yn is-adran (2)(b);

(ch) adran 27 (cydweithredu rhwng awdurdodau), yn is-adran (3)(d);

(d) adran 29 (adennill costau a chostau darparu gwasanaethau etc), yn is-adran (8)(c);

(e) adran 47 (dyletswydd awdurdod lleol i ymchwilio), yn is-adran (11)(d);

(f) adran 80 (archwilio cartrefi plant etc gan bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol) yn is-adrannau (1)(d) a (5)(e); a

(g) adran 85 (plant sy'n cael llety gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg lleol), yn is-adran (1).

(3) Yn adran 105 (dehongli), mewnosoder, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor "“Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006;".

**Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 (p.23)**

**21.**—(1) Diwygir Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11 (dehongli) —

(a) ym mharagraff (a) o'r diffiniad o "health service body" ar ôl y geiriau "Special Health Authority" mewnosoder ", Local Health Board"; a

(b) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder "“Local Health Board” means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006;".

**Deddf Undebau Llafur a Chydberthynas Lafur (Atgyfnerthu) Act 1992 (p.52)**

**22.** Yn adran 279 o Ddeddf Undebau Llafur a Chydberthynas Lafur (Atgyfnerthu) 1992 (ymarferwyr gwasanaeth iechyd) yn is-adran (1)(a) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

**Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p.53)**

**23.** Yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (tribiwnlysoedd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y cyngor) —

(a) ym mharagraff 33(a), yn lle "Health Authorities" rhodder "Local Health Boards established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006";

(b) ym mharagraff 33(c) yn lle "Health Authorities" rhodder "Local Health Boards".

**Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p.38)**

**24.** Yn adran 6 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (ystyr "public body") yn is-adran (1)(f) hepgorer y geiriau "a Health Authority or".

**Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17)**

**25.** Yn Atodlen 2 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (darpariaethau ac arbedion trawsnewidiol) ym mharagraffau 2(1), 2(2), 2(6) a 2(7) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

**Deddf Addysg 1996 (p.56)**

**26.**—(1) Diwygir Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 322 (dyletswydd awdurdodau iechyd neu awdurdodau lleol i helpu awdurdodau addysg lleol) —

(a) yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board" ac ar ôl y geiriau "help of the" mewnosoder "board,";

(b) yn is-adran (2) ar ôl y geiriau "An authority" mewnosoder ", a board";

(c) yn is-adran (3)(a) yn lle "Health Authority rhodder "Local Health Board" ac yn lle "authority" rhodder "board"; a

(ch) yn is-adran (4) ar ôl y geiriau "an authority" mewnosoder ", a board".

(3) Yn adran 332 (dyletswydd awdurdod iechyd, ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, neu ymddiriedolaeth gwasanaeth iechyd gwladol i hysbysu rhiant etc) —

(a) yn y pennawd ac yn is-adran (1) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board"; a

(b) yn is-adrannau (2) a (3) yn lle "Authority" ym mhob man y digwydd rhodder "Board".

**Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p.18)**

**27.**—(1) Diwygir Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 43K (ymestyn ystyr "worker" etc ar gyfer Rhan 4A), yn is-adran (1)(c)(i) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(3) Yn adran 50 (hawl i gael amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus) ym mharagraff (b) o is-adran (8) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006".

(4) Yn adran 218 (newid cyflogwr) yn is-adran (10)(a) hepgorer y geiriau "and Health Authorities" ac ar ôl is-adran 10(ca) mewnosoder —

"(cb) Local Health Boards established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006,".

**Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53)**

**28.** Yn adran 3 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (ymgeiswyr anghymwys), yn is-adran (2)(f) yn lle "health authority" rhodder "Local Health Board".

**Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 (p.37)**

**29.**—(1) Diwygir Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 fel a ganlyn.

(2) Yn lle "health authority" rhodder "Local Health Board" yn yr adrannau canlynol —

(a) adran 5 (awdurdodau sy'n gyfrifol am strategaethau), yn is-adran (1)(f);

(b) adran 38 (darpariaeth leol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid) yn is-adran (2)(b);

(c) adran 39 (timau troseddau ieuenctid) yn is-adrannau (3)(b) a (5)(d);

(ch) adran 41 (y bwrdd cyfiawnder ieuenctid), yn is-adran (10);

(d) adran 42 (darpariaethau atodol), yn is-adran (3); a

(e) adran 115 (datgelu gwybodaeth) yn is-adran (2)(f).

**Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14)**

**30.**—(1) Diwygir Deddf Safonau Gofal 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 20 (y weithdrefn brys ar gyfer diddymu etc), yn is-adran (6)(b) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(3) Yn adran 42 (pwer i ymestyn cymhwyso Rhan 2), yn is-adran (2)(b)(ii) yn lle "Health Authorities" rhodder "Local Health Boards".

(4) Yn adran 89 (effaith cynnwys ar y rhestr), hepgorer (4C)(d).

(5) Yn Atodlen Schedule 2A (personau sy'n ddarostyngedig i adolygiad gan y comisiynydd o dan adran 72B), ar ôl paragraff 2 mewnosoder fel paragraff 2A, "2A Any Local Health Board for an area in, or consisting of, Wales".

(6) Yn Atodlen 2B (personau sydd â'u trefniadau yn ddarostyngedig i adolygiad gan y comisiynydd o dan adran 73), ar ôl paragraff 3 mewnosoder fel paragraff 3A, "3A Any Local Health Board for an area in, or consisting of Wales".

**Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21)**

**31.**—(1) Diwygir Deddf Dysgu a Medrau 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 125 (ymgynghori a chydgysylltu), yn is-adran (1)(a) yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

(3) Yn adran 129 (atodol), yn is-adran (1) mewnosoder yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, ""Local Health Board" has the meaning given by section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006,".

(4) Yn adran 138 (Wales : darparu gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus), hepgorer is-adran (3)(b).

**Deddf Datblygu Rhyngwladol 2002 (p.1)**

**32.**—(1) Diwygir Deddf Datblygu Rhyngwladol 2002 fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (cyrff statudol y mae adran 9 yn gymwys iddynt) —

(a) hepgorer y geiriau "A Health Authority"; a

(b) mewnosoder y geiriau "A Local Health Board" yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor.

**Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42)**

**33.** Yn adran 42 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (gweithwyr gofal: dehongli) yn is-adran (5) yn y diffiniad o "National Health Service body", yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board".

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau sy'n gysylltiedig â sefydlu Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru o 1 Ebrill 2003 a diddymu Awdurdodau Iechyd ar yr un dyddiad. Mae'r Gorchymyn yn diwygio deddfiadau yn briodol er mwyn adlewyrchu'r ffaith y trosglwyddwyd swyddogaethau'r hen Awdurdodau Iechyd i'r Cynulliad o dan y Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu (Cymru) 2003 (O.S. 2003/813) a gwnaed swyddogaethau o'r fath wedyn yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol o dan y Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150). Mae'r Gorchymyn yn gwneud diwygiadau pellach i ddeddfiadau o ganlyniad i, neu mewn cysylltiad â, diddymu Awdurdodau Iechyd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth bod pob cyfeiriad at Awdurdod Iechyd neu Awdurdodau Iechyd yn cael eu trin fel cyfeiriadau at Fwrdd Iechyd Lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.